

Mesurau perfformiad ôl-16 cyson

Diweddariad | Medi 2018



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r nodyn briffio hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y mesurau perfformiad ôl-16 cyson newydd ac yn tynnu sylw at y camau allweddol y dylai ysgolion a cholegau eu cymryd. Cliciwch [yma](#) ar gyfer taflen sydd yn crynhoi'r mesurau.

Rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw agweddau ar y mesurau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch nhw i post16quality@llyw.cymru.

Y mesurau newydd

Cyflawniad

Cyflawniad a chyrrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru.

Gwerth ychwanegol

Y cynnydd sydd wedi'i wneud gan ddysgwyr, ar ben yr hyn a ddisgwylir fel arfer yn seiliedig ar eu cyrrhaeddiad blaenorol a'u rhyw.

Cyrchfannau

Cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch) a/neu gyflogaeth.

Yr hanes hyd yma...

Cafodd yr adroddiadau ystadegol cyntaf ar y **mesurau cyflawni** newydd eu cyhoeddi i ysgolion a cholegau ym mis Gorffennaf 2017, yn seiliedig ar garfannau dysgwyr 2014/15 a 2015/16. Roedd y rhain yn cynnwys dysgwyr ar raglenni dysgu addysg gyffredinol Lefel 3 (Safon Uwch/galwedigaethol), ac yn dangos cyfraddau cadw a chyrrhaeddiad dysgwyr dros ddwy flynedd o astudiaeth. Yn dilyn hynny, gwnaethom gyhoeddi adroddiadau wedi'u diweddarau ar gyfer rhaglenni dysgu a ddaeth i ben yn 2016/17. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y nodiadau esboniadol cyflawniad a'r Cwestiynau Cyffredin. Bydd manylion pellach ar gael yn [y nodiadau esboniadol cyflawniad](#) ac [Cwestiynau Cyffredin](#)

- Cafodd ystadegau cyflawni 2016/17 ar gyfer dysgwyr ar raglenni galwedigaethol eu cyhoeddi i golegau ym mis Mai 2018. Nid yw'r adroddiadau hyn wedi cael eu cyhoeddi i'r ysgolion hynny sy'n darparu rhaglenni galwedigaethol eto, gan eu bod yn dibynnu ar faes data newydd a fydd yn cael ei gasglu am y tro cyntaf yn 2017/18.
- Yn dilyn peilot yn 2016/17, cafodd yr adroddiadau **gwerth ychwanegol** llawn cyntaf eu cyhoeddi yn hydref 2017, wedi'u llunio gan ein contractwr, FFT Education Ltd. Cafodd set ddiwygiedig o adroddiadau, yn defnyddio'r fersiwn derfynol o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2016/17 a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru, eu cyhoeddi ym mis Mai 2018.
- Er nad ydym wedi cyhoeddi unrhyw ystadegau cyrchfannau eto, rydym wedi sefydlu cylch blynyddol o baru data sy'n casglu setiau data addysgol ynghyd, ac wedi ymuno ag astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol Llywodraeth y DU sy'n paru cofnodion addysg a chyflogaeth. Rydym nawr yn gweithio ar ein set gyntaf o ddata cyrchfannau ar gyfer rhaglenni dysgu a ddaeth i ben yn 2015/16. Bydd y mesur hwn yn cael ei gyhoeddi yn ôl amserlen wahanol i'r ddau fesur arall, a hynny i roi amser i ddysgwyr fynd ymlaen i gyrchfan parhaol ac i gasglu, paru a dadansoddi eu data.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Ar 20 Medi 2018, byddwn yn cyhoeddi'r ystadegau Cymru gyfan cyntaf ar gyfer y mesurau newydd:
 - Cyflawniad a gwerth ychwanegol** ar gyfer rhaglenni dysgu a ddaeth i ben yn 2016/17.
 - Cyrchfannau** ar gyfer rhaglenni dysgu a ddaeth i ben yn 2015/16. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau cyrchfannau unigol ar gyfer ysgolion a cholegau.

Bydd yr ystadegau hyn yn ffynhonnell wybodaeth bwysig i ddarparwyr addysg er mwyn iddynt ddechrau meincodi eu perfformiad.

- Rydym yn gweithio'n agos gydag Estyn ar y mesurau newydd, ac wedi rhannu adroddiadau data ysgolion a cholegau unigol â nhw. Bydd arolygwyr yn dechrau trafod y mesurau newydd ag ysgolion a cholegau yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.
- Rydym yn gweithio gyda FFT i wella rhywfaint ar yr adroddiadau a'r canllawiau gwerth ychwanegol er mwyn eu cyflwyno yn adroddiadau dros dro 2017/18, i'w cyhoeddi fis Tachwedd 2018.
- Byddwn yn cyfrifo'r mesurau cyflawni galwedigaethol ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n darparu rhaglenni galwedigaethol ar ôl cwblhau proses casglu data 2017/18.
- Ein bwriad yw datblygu porth ar-lein tebyg i Fy Ysgol Leol, er mwyn i ddysgwyr, rhieni a gofalmwyr, cyflogwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb allu gweld gwybodaeth fanwl am ganlyniadau darparwyr, rhaglenni a chyrsgiau. Teitl gwaith y porth hwn yw *Dewisiadau Ôl-16*. Rydym yn gobeithio y bydd fersiwn pilot ar gael tua gwanwyn 2019 ar gyfer ymgynghoriad a phroffion.

Yr hyn a ddylai fod yn nwylo ysgolion a cholegau ar hyn o bryd:

Yr hyn i gadw llygad amdano yr hydref hwn:

Adroddiadau cyflawni ar gyfer 2016/17 – drwy Fenter Cyfnewid Data Cymru (DEWi)

Adroddiadau gwerth ychwanegol ar gyfer 2016/17 – drwy DEWi ac Aspire Analytics

Adroddiadau gwerth ychwanegol dros dro ar gyfer 2017/18

Adroddiadau cyrchfannau ar gyfer 2015/16

Ystadegau Cymru gyfan ar y mesurau newydd (20 Medi 2018)

Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Rydym yn cynllunio pedwar digwyddiad rhanbarthol yn ail hanner mis Tachwedd er mwyn ymgysylltu rhagor ag ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach – bydd mwy o fanylion, yn cynnwys dyddiadau a lleoliadau, yn cael eu hanfon ar wahân.
- Rydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer grwpiau darllen i adolygu'r adroddiadau a'r canllawiau gwerth ychwanegol diwygiedig a rhoi adborth arnynt. Os ydych chi'n dymuno cymryd rhan, anfonwch e-bost i post16quality@llyw.cymru.

Camau allweddol i ysgolion a cholegau

- Gwneud yn siŵr bod eich cyflwyniadau data 2017/18 yn gywir (edrychwch ar dudalen 3 ar gyfer manylion am yr amserlen casglu data)
- Gwirio canlyniadau arholiadau a chodi materion drwy ddesg gymorth FFT (ymarfer gwirio Cronfa Ddata Arholiadau Cymru)
- Adolygu'r nodiadau esboniadol ar gyfer y mesur cyflawni i wneud yn siŵr eich bod yn deall y fethodoleg, a sut gallai unrhyw anghywirdebau yn eich data effeithio ar ganlyniadau eich ysgol neu goleg
- Adolygu'r canllawiau gwerth ychwanegol a fydd ar gael gyda'r data dros dro yn yr hydref i wneud yn siŵr eich bod yn deall eich adroddiadau gwerth ychwanegol
- Integreiddio'r mesurau perfformiad newydd yn eich cylch hunanwerthuso/hunanasesu blynyddol, eich prosesau monitro perfformiad a'ch adroddiadau i lywodraethwyr
- Defnyddio'r ystadegau Cymru gyfan sydd ar ddod i ddechrau meincodi eich perfformiad mewn perthynas ag ysgolion a cholegau eraill

Casglu a gwirio data

Mae'r broses gasglu ôl-16 yn hanfodol ar gyfer cyfrifo'r mesurau cyflawni a chyrchfannau newydd; dyma unig ffynhonnell data cofrestru a chwblhau rhaglenni dysgu.

Mae'n broses gasglu ôl-weithredol sy'n digwydd ym mis Medi/Hydref bob blwyddyn ac yn cynnwys data am holl weithgareddau disgyblion ym mlynnyddoedd 12, 13 ac 14+ yn ystod y flwyddyn academaidd **flaenorol**.

Dyma'r prif newidiadau ar gyfer 2017/18:

- mae set ddata rhaglenni newydd, sy'n cynnwys data am raglenni dysgu presennol neu flaenorol pob disgybl, wedi cael ei hychwanegu; a
- bydd y Cyfeirnod Gweithgaredd Dysgu blaenorol yn cael ei ddisodli gan rif Cymeradwyo/Dynodi Cymwysterau Cymru.

Rydym wedi datblygu adroddiad rheoli DEWi sy'n cael ei gynhyrchu'n awtomatig pan fydd y ffeil gasglu ôl-16 yn cael ei

Amserlen ar gyfer mesurau 2017/18

Mae [Calendr y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth](#) yn darparu rhestr o ddyddiadau allweddol i ysgolion ar gyfer cyflwyno gwybodaeth.

Dyddiad	Gweithgaredd
18 Medi i 19 Hydref 2018	DEWi: casglu data ôl-16 sy'n ymwneud â rhaglenni a gweithgareddau dysgu a ddarparwyd ym mlwyddyn academaidd 2017/18
5 i 22 Hydref 2018	DEWi: Ysgolion yn gwirio canlyniadau arholiadau ac yn codi materion drwy ddesg gymorth FFT (ymarfer gwirio Cronfa Ddata Arholiadau Cymru)
Tachwedd 2018	DEWi/Aspire Analytics: adroddiadau gwerth ychwanegol dros dro yn seiliedig ar ddata 2017/18 yn cael eu cyhoeddi i ysgolion ac awdurdodau lleol
Rhagfyr 2018	DEWi: adroddiadau data cyflawni'n cael eu cyhoeddi i

Ilwytho i fyny i DEWi. Mae'r adroddiad yn cyfrifo ffigurau ar lefel ysgol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyfrifiad y mesurau cyflawni ôl-16 newydd, ac felly dylai Penaethiaid Chweched Dosbarth a chysylltiadau data mewn awdurdodau lleol ei ddefnyddio i'w helpu i ddilysu'r data. Rydym wedi cynhyrchu rhywfaint o [ganllawiau](#) i helpu gyda'r broses ddilysu. Mae'n bwysig bod Penaethiaid Chweched Dosbarth yn cysylltu â chyd-weithwyr sy'n cyflwyno'r data i wneud yn siŵr bod y data'n gywir.

	ysgolion ac awdurdodau lleol gan ddefnyddio data 2016/17 a 2017/18
Chwefror 2019	Gwefan: Datganiad Ystadegol: Mesurau Cyflawni a Gwerth Ychwanegol ar gyfer 2017/18
Gwanwyn 2019 (dyddiad i'w gadarnhau)	Dewisiadau Ôl-16: adroddiadau data cyflawni ysgolion unigol yn cael eu cyhoeddi gan ddefnyddio data 2016/17 a 2017/18
Gwanwyn 2019 (dyddiad i'w gadarnhau)	DEWi/Aspire Analytics: adroddiadau gwerth ychwanegol terfynol yn seiliedig ar ddata 2017/18 yn cael eu cyhoeddi i ysgolion ac awdurdodau lleol
Hydref 2020 (dyddiad i'w gadarnhau)	DEWi: adroddiadau cyrchfannau dysgwyr yn cael eu cyhoeddi i ysgolion ac awdurdodau lleol